Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Cais am Drwydded i Gwympo Coed sy'n Tyfu

Deddf Coedwigaeth 1967 fel y'i newidiwyd

Gwneud Cais am Drwydded Gwympo Coed

Dylech ddarllen llyfryn y Comisiwn Coedwigaeth "Cwympo Coed - Cael Caniatâd / Tree Felling - Getting Permission" cyn gwneud cais am drwydded. Pwrpas y wybodaeth yn y llyfryn hwnnw ac yn y nodiadau isod yw rhoi arweiniad yn unig; dehongliad o'r ddeddfwriaeth ydynt ac nid ydynt yn rhwymo'n gyfreithiol. Gellir cael copïau o Ddeddf Coedwigaeth 1967 fel y'i newidiwyd a'r Rheoliadau sy'n effeithio ar dorri coed gan lyfrwerthwyr. Rhestrir y ddeddfwriaeth ar dorri coed yn "Cwympo Coed - Cael Caniatâd". Rhoddir cyfeiriadau swyddfeydd y Comisiwn Coedwigaeth yn y llyfryn hwn hefyd. Siaradwch â'r Swyddog Coetiroedd os oes gennych unrhyw gwestiynau.

I roi digon o amser i'n Swyddog Coetiroedd edrych ar y safle a gwneud unrhyw ymgynghoriadau angenrheidiol, anfonwch eich cais i mewn o leiaf 3 mis cyn yr amser yr hoffech ddechrau cwympo.

Peidiwch â dechrau torri hyd nes i chi gael trwydded. Mae'n drosedd i cwympo coed heb gael trwydded neu ganiatâd arall, oni bai bod y gwaith wedi'i eithrio.

Cwympo coed mewn ardaloedd arbennig

Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

Rhaid i chi ddweud wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru os ydych yn bwriadu gwneud unrhyw waith a all effeithio ar SDdGA (SSSI).

Henebion Rhestredig

Rhaid i chi ddweud wrth CADW os ydych yn bwriadu gwneud unrhyw waith a all effeithio ar Heneb.

Gorchmynion Cadw Coed

Os yw Gorchymyn Cadw Coed (GCC/TPO) yn gwarchod y coed, neu os ydynt mewn Ardal Gadwraeth (o dan y Deddfau Cynllunio Gwlad a Thref), byddwn yn penderfynu a ddylid rhoi trwydded cwympo coed ar ôl ymgynghori â'r awdurdod cynllunio lleol. Rhaid i chi roi manylion unrhyw Orchmynion Cadw Coed yn Rhan 4 o'r ffurflen hon.

Bydd unrhyw drwydded a roddir o ganlyniad i'r cais hwn yn berthnasol yn unig i'r coed a'r math o dorri a ddisgrifir yn y cais.

Sut i lenwi eich ffurflen gais

Bydd angen i chi lenwi'r ffurflen hon a rhoi 2 GOPI i ni o'r map, wedi'u llofnodi a'u dyddio, yn dangos yr ardal y mae'r cais yn cyfeirio ati. Byddwn yn dychwelyd un copi o'r map i chi gyda'r drwydded ac yn cadw'r copi arall.

Y Map

Rhaid i chi ddefnyddio map gwreiddiol neu lungopi o safon dda. Bydd yn rhaid i ni anfon mapiau annerbyniol yn ôl. Cyn marcio'r map, cadarnhewch:

- ei fod yn fap Arolwg Ordnans cyfoes
- ei fod ar raddfa o 1:10000 neu 1:2500
- fod y raddfa yn cael ei dangos ar y map
- fod o leiaf 2 linell grid lorweddol a 2 linell grid fertigol yn cael eu dangos
- nad yw unrhyw fanylion perthnasol wedi'u cuddio gan blygion neu farciau eraill.

Rhaid i chi farcio'n glir leoliad y coed sydd i gael eu cwympo neu eu teneuo. Rhaid i chi hefyd farcio'r cyfeirnod grid ar gyfer canol yr ardal lle byddwch yn cwympo coed. Rhaid i hwn fod o fewn y coetir neu'r ardal o goed sydd i gael ei thorri. Os nad yw'r man lle ceir mynediad i'r coed yn amlwg, dangoswch hwn ar y map hefyd.

RHAN 1 – Manylion yr ymgeisydd

Gallwn roi trwydded i:

- berchennog y tir y mae'r coed yn tyfu arno;
- tenant y mae ei brydles yn rhoi hawl iddo gwympo'r coed.

Gall asiant lenwi'r ffurflen hefyd ond rhaid iddo roi enw'r perchennog neu'r tenant fel yr ymgeisydd, gan fod yn rhaid i ni roi'r drwydded yn ei enw ef/hi.

Cymru

RHAN 2 – Y coed i'w cwympo

Cyfeirnod Grid - Mae angen 2 lythyren a 6 ffigur. Mae'r mwyafrif o fapiau ordnans yn esbonio sut i wneud hyn.

Safle/Adran lle Cwympir y Coed - rhowch enw pob adran *(compartment)* neu enw'r coetir neu gae. Defnyddiwch linell ar wahân ar gyfer pob adran. Rhowch Amh. os nad yw'n berthnasol.

Math o Waith - dywedwch wrthym os yw eich cynigion ar gyfer:

- T teneuo
- SF cwympo detholus
- F cwympo a chlirio (gan gynnwys cwympo grŵp)
- FC cwympo coedlan *(coppice)*
- FO cwympo arall e.e. coed mewn gwrychoedd a choed unigol eraill

Mae teneuo yn golygu tynnu cyfran o'r coed er mwyn rhoi mwy o le i'r coed sydd ar ôl dyfu. Bydd y coed sydd ar ôl yn tyfu i feddiannu'r safle yn gyfan gwbl. Mae torri detholus ar y llaw arall yn gadael bylchau y mae angen eu hailstocio.

Rhywogaethau - defnyddiwch linell ar wahân ar gyfer pob prif rywogaeth. Gallwch ddefnyddio MB am goed collddail cymysg ac MC am gonwydd cymysg ond dylech roi manylion y rhywogaethau sydd i gael eu torri yn yr adran o dan "Gwybodaeth bellach am y gwympo arfaethedig".

Marcio Coed - Rhaid marcio'n glir y coed sydd i gael eu cwympo, cyn i chi anfon y cais hwn atom. Dywedwch sut yr ydych wedi marcio'r coed, e.e. paent melyn. Osgowch farcio coed o werth cadwraethol neu amwynderol uchel yn barhaol (e.e. drwy 'blaze'). Yn achos cwympo a chlirio, teneuo rhes, neu goedlan, nid oes rhaid i chi farcio ond y coed ar y ffin ar yr amod eich bod yn marcio'r ardal i'w gwympo yn glir ar y map. Mae'n bosibl y byddwn yn gadael i chi farcio sampl o'r coed i'w cwympo ac eithrio mewn achosion cymhleth neu sensitif lle bydd gofyn i chi farcio pob coeden.

Gwybodaeth bellach am y gwaith arfaethedig - Rhowch unrhyw wybodaeth ychwanegol a fydd yn ein helpu i asesu eich cynigion. Er enghraifft:

- dwysedd y teneuo (nifer, canran neu gyfaint o goed) a'r math;
- os yw'r coed sy'n aros i gael eu marcio;
- os yw unrhyw fathau neu rywogaethau penodol o goed i gael eu cwympo neu eu cadw;
- sut yr ydych chi'n bwriadu osgoi gwneud difrod i ardaloedd sensitif megis cyrsiau d_r neu safleoedd archaeolegol.

Pryd yr ydych chi'n dymuno dechrau cwympo - Byddwn yn ceisio rhoi'r drwydded o fewn 10 wythnos ar ôl derbyn y cais. Oni bai bod eich cais ar gyfer teneuo yn unig heb unrhyw cwympo arall, byddwn yn rhoi gwybodaeth amdano ar ein cofrestr gyhoeddus. Bydd y manylion yn aros ar y gofrestr am 4 wythnos er mwyn rhoi cyfle i bobl roi sylwadau ar y cynigion. Ni allwn roi trwydded nes bod y cyfnod hwn wedi mynd heibio.

Pryd yr ydych chi'n disgwyl gorffen y cwympo? - Dywedwch wrthym pryd yr ydych chi'n disgwyl cwblhau'r gwaith. Mae ein trwyddedau yn rhedeg am 2, 3, 4 neu 5 mlynedd fel rheol.

RHAN 3 – Ailstocio arfaethedig

Rhaid i chi esbonio sut yr ydych chi'n bwriadu ailstocio'r ardal a gwympir. Dylech nodi a ydych yn bwriadu defnyddio plannu, aildyfiant coedlan neu aildyfiant naturiol. Dylech nodi'r cymysgedd o rywogaethau a'r nifer o goed yr hectar. Rhaid i chi hefyd gynnwys mesurau cynnal a gwarchod - rhai coedwrol ac amgylcheddol.

Mae'n bosibl y byddwn yn barod i dderbyn plannu mewn man arall. Esboniwch pam yr ydych am wneud hyn. Os ydych am i ni ystyried y posibilrwydd hwn, bydd angen i chi ddarparu map sy'n dangos yr ardal arall.

RHAN 4 – Gorchmynion Cadw Coed/Ardaloedd Cadwraeth

Os oes GCC mewn grym neu os yw'r coed mewn Ardal Gadwraeth, rhaid i chi roi'r manylion yma.

RHAN 5 – Datganiadau

Gallwn ofyn i chi roi tystiolaeth bod unrhyw ganiatâd angenrheidiol wedi'i roi. Cofiwch na all asiant lofnodi'r ffurflen hon oni bai bod ganddo ganiatâd y perchennog. Mae'n bosibl y bydd angen i denantiaid a deiliaid prydles gael caniatâd perchennog y tir. Mae'n bosibl y bydd angen cael caniatâd y corff statudol perthnasol i wneud gwaith a all effeithio ar safle cadwraeth rhestredig neu safle o werth archaeolegol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch llenwi'r ffurflen, byddwch cystal â chysylltu â'ch swyddfa Comisiwn Coedwigaeth leol.

Produced by Grants & Licences, Forestry Commission, Edinburgh. Tel: 0131 334 0303.

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Cyfeirnod
At ddefnydd y CC yn unig

Cais am Drwydded i Gwympo Coed sy'n Tyfu

RHAN 1 – Manylion yr ymgeisydd

Enw llawn yr ymgeisydd:

Cyfeiriad:

Côd Post:

Ffôn: Ffôn Symudol: Ffacs:

Enw'r asiant:

Cyfeiriad:

Côd Post:

Ffôn: Ffôn Symudol: Ffacs:

RHAN 2 – Y coed i'w cwympo

Enw'r eiddo:

Enw'r coetir:

Cyfeirnod grid *(ar gyfer canol yr ardal i'w thorri)*:

Tref agosaf neu enw'r gymdogaeth:

Awdurdod lleol:

Safle/Adran lle Cwympir y Coed	Math o Waith*	Rhywogaethau	Marcio Coed	Arwyn-ebedd (ha)	Oed y Coed yn Fras	Nifer y Coed i'w Cwympo	Amcan-gyfrif o Gyfaint m^3
ENGHRAIFFT *Adran 2*	*SF*	*Derw*	*Paent Melyn*	*0.5*	*150*	*45*	*67*

**Gweler Rhan 2 o'r Nodiadau, 'Mathau o Waith', am y byrfoddau.*

Cyfanswm Cyfaint m^3

Gwybodaeth bellach am y gwaith arfaethedig:

Pryd yr ydych chi'n dymuno dechrau cwympo?

Pryd yr ydych chi'n disgwyl gorffen y cwympo?

Cymru

RHAN 3 – Ailstocio arfaethedig

Fel rheol rydym yn disgwyl y bydd yr ardal a gwympir yn cael ei hailstocio oni bai eich bod chi'n teneuo yn unig. O dan Ddeddf Coedwigaeth 1967, fel y'i newidiwyd, byddwn fel rheol yn cysylltu amodau wrth y drwydded i sicrhau yr ailstocir yr ardal. Byddwn yn trafod yr amodau hyn gyda chi a byddwn yn gofyn i chi gytuno'n ffurfiol â'r amodau cyn rhoi'r drwydded. Nodwch yma eich cynigion ar gyfer ailstocio pob ardal lle bydd coed yn cael eu cwympo. Gallwch hefyd ddangos y cynigion hyn ar fap.

RHAN 4 – Gorchmynion Cadw Coed

Os yw Gorchymyn Cadw Coed mewn grym neu os yw'r coed mewn Ardal Gadwraeth (o dan y Deddfau Cynllunio Gwlad a Thref), mae'n **rhaid** i chi gadarnhau nad ydy'r un o'r rhain yn berthnasol, neu rhowch y manylion isod:

1. Rwy'n tystio nad oes yna Orchmynion Cadw Coed ar y coed sydd i'w cwympo, ac nac ydynt mewn Ardal Cadwraeth ☐ *Ticiwch os gwelwch yn dda*

2. Mae'r Gorchymyn Cadw Coed yma'n cyfeirio at y coed yn y cais yma:

   Gwnaed y gorchymyn gan:

   Enw'r cyngor dosbarth lleol os ydyw'n wahanol:

   Teitl y gorchymyn a'r dyddiad:

   Manylion yn Ardal Cadwraeth:

RHAN 5 – Datganiadau

Rwyf drwy hyn yn gwneud cais am drwydded i gwympo'r coed a ddisgrifir yn RHAN 2, a thystiaf:

- fod gennyf hynny o ystad neu fudd yn y tir y mae'r coed yn tyfu arno ag sy'n fy ngalluogi, gyda neu heb ganiatâd unrhyw berson arall, i dorri'r coed;
- fy mod wedi cael unrhyw ganiatâd y mae angen ei gael gan unrhyw un arall;
- fy mod wedi holi'r awdurdodau cynllunio lleol ynghylch a Gorchmynion Cadw Coed ac Ardaloedd Cadwraeth
- hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, fod y wybodaeth a roddir yn y cais hwn yn gywir ac yn gyflawn.

Llofnod: Dyddiad:

PEIDIWCH DECHRAU CWYMPO COED HYD NES I CHI GAEL TRWYDDED!

Ar ôl llenwi'r ffurflen, byddwch cystal â'i datgysylltu o'r nodiadau a'i hanfon i'ch swyddfa Comisiwn Coedwigaeth leol ynghyd â 2 GOPI WEDI'U LLOFNODI A'U DYDDIO O FAP sy'n dangos yr ardal y cyfeirir ati yn y cais.

Produced by Grants & Licences, Forestry Commission, Edinburgh. Tel: 0131 334 0303.

Forestry Commission IB14/3(LFGT)-GL-MDA-HN-3K-May 06 © Crown copyright. FCCS450